



Darparwyr Gwasanaethau

Rhagfyr 2019

Annwyl Ddarparwyr Gwasanaethau,

Diwygiad i'r rhestr o bethau y mae angen i ddarparwyr gwasanaethau roi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru amdanynt

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi am gynnig gan Lywodraeth Cymru i ddiwygio atodlen 3 o'r gyfres o reoliadau¹ sy'n gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion sy'n gyfrifol am wasanaethau gofal rheoleiddedig yng Nghymru.

Mae atodlen 3 o'r rheoliadau hyn yn rhestru'r pethau y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau roi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru amdanynt. Rydym wedi canfod rhywbeth sydd wedi'i hepgor yn anfwriadol o'r rhestr yn ymwneud â darparwyr gwasanaethau sy'n sefydliadau anghorfforedig.

Er bod rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sy'n sefydliadau corfforedig neu'n bartneriaethau roi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am unrhyw newidiadau ymhlith cyfarwyddwyr neu bartneriaid y sefydliad, nid oes unrhyw ofyniad cyfatebol i roi gwybod am newidiadau ymhlith unigolion sy'n gweithredu fel y prif gorff penderfynu mewn sefydliadau anghorfforedig. Gall yr unigolion hyn fod yn ymddiriedolwyr neu'n aelodau o fyrddau neu bwyllgorau, er enghraifft.

¹ Y rhain yw:

- Rheoliad Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiad Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019;
- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019;
- Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019;
- Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.





Cododd y cynnig i ddiwygio atodlen 3 y rheoliadau hyn yn ystod yr ymgynghoriad diweddar ar ddiwygio *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017* ("y rheoliadau cofrestru") a chreu rheoliadau dan adran 9(9) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Roedd hyn yn ymwneud â chael gwybodaeth gan unigolion sy'n cynrychioli prif gorff penderfynu sefydliadau sy'n gwneud cais i fod yn ddarparwyr gwasanaethau, fel cyfarwyddwyr, ymddiriedolwyr ac aelodau byrddau a phwyllgorau, ar adeg cofrestru, a galluogi Arolygiaeth Gofal Cymru i ddefnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu ar gymhwysedd y darparwr gwasanaeth. Mae'r wybodaeth hon wedi'i nodi ym mharagraffau 13 i 23 o'r rheoliadau cofrestru ac yn ymwneud â chefnidir yr unigolyn ym maes rheoli gwasanaethau rheoleiddiedig.

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi yn fuan ar wefan Llywodraeth Cymru.

Rydym yn bwriadu diwygio'r rhestr yn atodlen 3 i'w gwneud yn ofynnol i sefydliadau anghorfforedig roi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am unrhyw newidiadau ymhlith eu hymddiriedolwyr neu aelodau pwyllgor (os mai'r unigolion hyn yw prif gorff penderfynu'r sefydliad). Fel rhan o'r gwaith, mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn bwriadu gofyn am wybodaeth am hanes y cyfarwyddwr newydd neu unigolyn cyfatebol o ran cynnal gwasanaethau rheoleiddiedig, fel y nodwyd ym mharagraffau 13 i 23 y rheoliadau cofrestru.

Bydd y newid arfaethedig hwn yn galluogi i Arolygiaeth Gofal Cymru sicrhau bod ganddi drosolwg effeithiol o'r bobl sy'n cynnal gwasanaethau rheoleiddiedig a bydd yn sicrhau cysondeb yn y gofynion ar yr amrywiol sefydliadau sydd wedi'u cofrestru fel darparwyr gwasanaethau yng Nghymru.

Ein bwriad yw daw'r newid arfaethedig i atodlen 3 y rheoliadau i rym ar 1 Ebrill 2020.

Os hoffech roi sylwadau ar y cynigion hyn, gallwch e-bostio'r blwch Rheoleiddio ac Arolygu yn: RISCAct2016@llyw.cymru. Os hoffech ymateb, byddwn yn ddiolchgar pe gallech wneud hynny erbyn 17 Ionawr 2020.

Yn gywir

ALBERT HEANEY
CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AC INTEGREIDDIO